



## Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Pencadlys yr Heddlu  
03 Mehefin 2020

### COFNODION

#### Yn bresennol

##### Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Lee Jones - Cadeirydd (LJ)	Prif Weithredwr (Interim)
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu

##### Heddlu De Cymru

Marc Attwell (MA)	Uwch-arolygydd, Gwasanaethau Corfforaethol
Jenny Gilmer (JG)	Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Jeremy Vaughan (JV)	Dirprwy Brif Gwnstabl

##### Aelodau PALG

Alex Drummond (AD)	Cynghorydd Annibynnol
Steve Bartley (SB)	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Jasmine Jones (JJ)	Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Judith Major (JM)	Hafal
Reynette Reynolds (RR)	Oasis
Charlotte Singleton (CS)	Ffocws Dioddefwyr De Cymru
Liz Baker (LB)	Barnardos
Sarah Kikpatrick (SarahK)	Cymorth i Fenywod Cymru
Samina Khan (SK)	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Jalal Goni (JG)	Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST)
Holly Taylor (HT)	Cyngor Ffoaduriaid Cymru

### 1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a chyflwynodd gynrychiolwyr newydd o sefydliadau a oedd wedi cael eu gwahodd i roi safbwyntiau ychwanegol mewn ymateb i blismona yn ystod pandemig COVID-19.

Trafodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Gofynnodd AD am fân newidiadau i'r ffordd roedd rhai sylwadau wedi'u geirio.

#### Diweddariadau ar gamau gweithredu

1. Caiff gwybodaeth gan y 'bwrdd rheolaeth drwy orfodaeth' ei chynnwys mewn cyfarfodydd yn y dyfodol fel y bo'n briodol.
2. Caiff y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd ei chynnwys mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.



## 2. Plismona yn ystod pandemig COVID-19

Gofynnodd EW i HJJ roi trosolwg o adroddiad tîm y Comisiynydd. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r adborth a gasglwyd gan aelodau o'r cyhoedd ac asiantaethau partner mewn perthynas ag unrhyw gwestiynau neu bryderon a oedd ganddynt mewn ymateb i blismona yn ystod y pandemig. Nododd HJJ yr ymatebwyd yn unigol i gwestiynau penodol gan y cyhoedd, a bod yr adroddiad yn cynnwys pynciau perthnasol i'w trafod yn y cyfarfod.

### Adborth gan y Cyhoedd

Rhoddodd HJJ grynodedb o'r adborth a gasglwyd gan y cyhoedd, a nododd fod sylwadau cymysg ynghylch y ffordd roedd yr heddlu wedi gorfodi deddfwriaeth ynglŷn â'r Coronafeirws. Roedd rhai pobl o'r farn bod dull gweithredu'r heddlu yn gymesur, tra bod eraill wedi rhoi sylwadau ynghylch gweithredu anghymesur. Cyfeiriodd rhai sylwadau at y ffaith nad oedd yr heddlu wedi gwneud digon i gymryd camau i fynd i'r afael ag achosion o dorri cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol. Roedd ymholiadau yn ymwneud â ph'un a fu cynnydd yn nifer yr achosion o droseddau casineb y rhoddwyd gwybod amdanynt a chynnydd yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau yn erbyn pobl hŷn. Gofynnodd rhai pobl hefyd pa fesurau oedd ar waith i ddiogelu swyddogion a staff rhag cael eu heintio â'r feirws, a beth oedd eu hymagwedd at gadw pellter cymdeithasol wrth ddelio â phobl a oedd yn gwarchod. Tynnodd HJJ sylw hefyd at nifer o enghreifftiau cadarnhaol a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd ac asiantaethau partner, a oedd yn cynnwys sylwadau yn canmol swyddogion yr heddlu yn ystod y cyfnod clo a'r ffordd sensitif roeddent wedi ymdrin â nifer o argyfyngau iechyd meddwl yn ystod y cyfnod clo.

### Cwynion gan y Cyhoedd

Rhoddodd HJJ drosolwg byr o nifer y cwynion yn ymwneud â COVID-19 a wnaed i'r Comisiynydd gan aelodau o'r cyhoedd. Cafwyd cyfanswm o 18 o gwynion a llythyrau cwyno yn ymwneud â COVID-19 rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020. Roedd y ffigur hwn yn cyfateb i 16% o'r holl gwynion a wnaed i'r Comisiynydd ar gyfer y cyfnod. Hyd yma, roedd 40 o gwynion hefyd wedi'u gwneud i Heddlu De Cymru ynghylch y ffordd roedd wedi plismona deddfwriaeth ynglŷn â COVID-19 ers dechrau'r cyfnod clo. Roedd themâu cwynion yn ymwneud â'r ffaith nad oedd swyddogion yn cydymffurfio â chanllawiau ar gadw pellter cymdeithasol, adroddiadau am fethiant yr heddlu i ymateb i achosion o dorri rheolau COVID-19 a'r cyfyngiadau presennol yn arwain at oedi cyn i'r heddlu ymdrin ag ymchwiliadau cyfredol.

### Adborth PALG

Cyfeiriodd HJJ at faterion yr hoffai i PALG eu trafod. Yn benodol, y wybodaeth a ddarparwyd gan sefydliadau am y problemau a wynebwyd gan eu cleientiaid yn ystod y cyfnod clo a sut yr effeithiwyd ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Cyfeiriodd SarahK at broblemau yn ymwneud ag amseroldeb a godwyd gan achwynwyr a gofynnodd a oedd unrhyw gymaryddion o ran amseroldeb wrth ddelio ag ymchwiliadau fel arfer. Cytunodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gilmer nad oedd cwynion ynghylch amseroldeb yn broblem newydd i'r heddlu. Fodd bynnag, nid yr heddlu oedd yn gyfrifol am yr oedi a welwyd yn ystod pandemig COVID-19 bob amser. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Gwnstabl



Vaughan fod amseroldeb yn aml yn cael ei godi fel achos pryder am fod pobl, wrth reswm, am i'r heddlu ymdrin â'u materion cyn gynted â phosibl. Nododd y Dirprwy Brif Gwnstabl Vaughan fod yr heddlu yn cyflawni mwy o ganlyniadau cadarnhaol nag o'r blaen. Roedd nifer y cwynion ynghylch amseroldeb hefyd yn llai o gymharu â'r llynedd. Gofynnodd SarahK a oedd y canlyniadau ar gyfer cyhuddo unigolion o drosedd yn cynyddu neu'n gostwng yn gymesur. Dywedodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Vaughan fod nifer yr unigolion a gyhuddwyd o drosedd wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd yr heddlu'n gweithio'n galed i ymateb i achosion o gam-drin domestig ac yn arestio mwy o bobl, ar gyfartaledd, er bod nifer yr adroddiadau am achosion o'r fath wedi lleihau.

### Cyflwyniad ar Berfformiad

Gofynnodd LJJ i MA gyflwyno'r dadansoddiad o berfformiad o ran COVID-19 i'r heddlu. Esboniodd MA fod y cyflwyniad yn rhoi trosolwg o rai o'r pwysau a wynebwyd gan yr heddlu ers 24 Mawrth a dadansoddiad ansoddol ategol ynghylch y rheswm dros hyn. Cyflwynodd MA flaenoriaethau'r heddlu o ran trosedd ac anhrefn, a rhoddodd sicrwydd i'r grŵp fod y blaenoriaethau hyn wedi aros yr un fath yn ystod y pandemig.

Darparodd MA brif asesiad o weithgarwch yr heddlu ers dechrau COVID-19. Roedd galw mawr am wasanaeth yr heddlu o hyd, ond roedd i'w briodoli'n bennaf i alwadau yn ymwneud â COVID-19. Roedd yn ymddangos bod dull gorfodi'r heddlu yn effeithiol ac, ar y cyfan, roedd swyddogion wedi gweld lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r cyfyngiadau yn y gymuned. Ar y penwythnos a gwyliau banc y cofnodwyd y cynnydd mwyaf yn nifer yr achosion o dorri rheolau COVID-19 yn bennaf, yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd da. Cofnodwyd un o'r diwrnodau prysuraf yn hanes yr heddlu ar ŵyl banc 'VE'. Rhoddodd MA ddadansoddiad manwl o nifer y galwadau 999 a 101 a gafwyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus rhwng mis Chwefror a mis Mai 2020.

Rhoddodd MA drosolwg o nifer yr achosion yn ystod y cyfnod clo, o gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Roedd y newidiadau i'w priodoli'n bennaf i'r cynnydd yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a oedd yn gysylltiedig â'r achosion o dorri rheolau COVID-19. Cofnodwyd gostyngiad ym mhob un o'r categorïau eraill o achosion, yn enwedig y categori troseddau.

Rhoddodd MA ddadansoddiad manwl o nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt ar gyfer pob categori trosedd a data cymaradwy ar gyfer yr un cyfnod yn 2019. Dangosodd y prif ffigurau gynnydd yn nifer y troseddau yn ymwneud ag aflonyddu ac unigolion â chyffuriau yn eu meddiant, yn enwedig canabis. Ar gyfer y mathau meddiangar o droseddau, megis dwyn o siop a throseddau rhywiol, y gwelwyd y lleihad mwyaf, ac ystyriwyd bod hyn i'w briodoli i lai o gyfleoedd. Nododd MA fod nifer yr achosion o gam-drin domestig y rhoddwyd gwybod amdanynt wedi lleihau yn wreiddiol ac, wedyn, wedi cynyddu ychydig cyn lleihau eto. Nododd MA bryderon ynghylch tueddiadau tuag i lawr o ran nifer y troseddau yn ymwneud ag amddiffyn plant y rhoddwyd gwybod amdanynt. Awgrymodd MA fod hyn i'w briodoli, yn ôl pob tebyg, i'r cyfyngiadau presennol a'r ffaith na allai plant fynd i'r ysgol, clybiau ieuencid, ac ati. Roedd plant hefyd yn fwy tebygol o ddioddef troseddau ar-lein, gan fod y defnydd o'r rhyngwyd wedi cynyddu am fod y rhan fwyaf o addysg yn cael ei darparu ar-lein.

Gofynnodd JM a oedd yr heddlu wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion yn ymwneud ag iechyd meddwl. Dywedodd MA nad oedd wedi gweld cynnydd sylweddol. Fodd bynnag,



gellid adolygu hyn fel pwnc thematig er mwyn rhoi sicrwydd bod yr heddlu'n brysbennu'n briodol. Gofynnodd LJ a oedd dull gweithredu cyson mewn canllawiau a roddwyd i swyddogion a staff mewn ymateb i reoliadau COVID-19. Cadarnhaodd MA fod canllawiau cyson wedi'u rhoi i swyddogion a staff ar sut i ymdrin ag unigolion a oedd yn torri canllawiau. Roedd y Coleg Plismona hefyd wedi darparu canllawiau, a oedd yn nodi'r ffordd roedd galwadau'n cael eu brysbennu.

Dywedodd SB fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl hŷn a oedd yn cysylltu â'i swyddfa mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gofynnodd SB a oedd gan yr heddlu unrhyw ddata ar broffiliau unigolion a gysylltodd ag ef, ac a oedd wedi sylwi ar gynnydd penodol yn nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt gan bobl hŷn. Dywedodd MA nad oedd yr heddlu wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl hŷn a oedd yn cael eu targedu a bod nifer y bobl dros 60 oed a oedd yn dargedau troseddau wedi lleihau'n sylweddol.

Gofynnodd LB a ellid dadansoddi data'r heddlu ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac achosion o dorri rheolau COVID-19 ymhellach yn grwpiau oedran. Dywedodd MA nad oedd dadansoddiad o'r fath ar gael ar hyn o bryd, ond y gellid ystyried y mater hwn ymhellach a'i gyflwyno i'r grŵp unwaith eto yn ddiweddarach.

Dywedodd MA fod y dull cenedlaethol o 'ymgysylltu, esbonio, annog, gorfodi', wedi bod yn llwyddiannus ac nad oedd angen gorfodi'r gyfraith os oedd unigolion yn cydymffurfio â hi. Trafododd y grŵp effaith y pandemig ar deuluoedd agored i niwed a'r lleihad cyffredinol yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau teuluol. Ailbwysleisiodd LB y pwynt nad oedd plant yn weladwy i asiantaethau partner yn eu cartrefi na'u hysgolion. Roedd tîm 'Camau Cynnar Gyda'n Gilydd' yn awyddus i weithio gyda'r heddlu i atgyfeirio unigolion at wasanaethau ymyrryd yn gynnar a chymorth yn hytrach na gwasanaethau amddiffyn plant yn unig. Sicrhaodd MA y grŵp fod uned diogelu'r cyhoedd yr heddlu yn ymgysylltu ag asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod cysylltiadau adrodd da yn cael eu cynnal. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sicrhau nad oedd yr heddlu yn ddall i 'fylchau adrodd'.

Trafododd y grŵp y cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin nas cyflawnwyd gan bartner agos yn ystod y cyfnod clo estynedig. Gofynnodd KJ beth roedd yr heddlu yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion llety cyflawnwyr mewn achosion lle roedd gorchmynion diogelu rhag trais domestig yn cael eu cyflwyno. Dywedodd MA fod yr heddlu wedi bod yn ymchwilio i'r mater hwn a'i fod yn cyflwyno'r un nifer o orchmynion diogelu rhag trais domestig ag yr oedd yn eu cyflwyno cyn COVID-19. Nododd MA fod yr heddlu yn annog swyddogion i arfer eu disgrisiwn ym mhob achos er mwyn ystyried ble roedd llety yn broblem. Nid oedd yr heddlu am fod yn rhy ragnodol o ran y broses hon. Nododd MA fod yr heddlu wedi cyflwyno saith gorchmynion diogelu rhag trais domestig ers dechrau'r cyfyngiadau symud.

Gofynnodd SB a oedd unrhyw ddata ar ddiogelu ar gael mewn perthynas ag oedolion agored i niwed sydd mewn perygl. Dywedodd MA nad oedd y data hyn ar gael ar unwaith, yn anffodus, ond y gellid ymchwilio i'r mater.

### Tueddiadau o ran Troseddau

Aeth MA ymlaen i gyflwyno'r data ar dueddiadau o ran troseddau yn ystod y cyfyngiadau symud, a nododd fod unigolion sydd â chyffuriau yn eu meddiant yn achosi pryder yn y gymuned blismona yn genedlaethol. Nododd MA, er bod yr heddlu yn pryderu ynghylch y



cynnydd parhaus, nad oedd yn dangos bod y farchnad gyffuriau wedi cynyddu. Roedd y defnydd arferol o gyffuriau yn haws ei ganfod, am fod swyddogion yn mynd at fwy o bobl, a oedd yn arwain at ganfod cyffuriau. Roedd dulliau masnachu cyffuriau hefyd wedi addasu yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd yr heddlu yn parhau i fonitro hyn gyda'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol.

Croesawodd MA adborth gan aelodau PALG am eu hymwybyddiaeth o unrhyw dueddiadau ymhlith grwpiau penodol o'r boblogaeth.

Gofynnodd SK a oedd yr heddlu yn monitro ethnigrwydd unigolion ar draws y mathau gwahanol o droseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Dywedodd MA fod yr heddlu yn monitro hyn pan oedd y wybodaeth hon yn cael ei darparu.

Nododd SK y gallai cymunedau BAME fod yn fwy agored i niwed mewn sawl ffordd ac nad oeddent bob amser yn gwybod sut i roi gwybod am bethau neu nad oedd ganddynt y sgiliau i ddelio â phroblemau penodol, e.e. troseddau ar-lein, bob amser. Ychwanegodd SK nad oedd ymgyrchoedd yn cyrraedd cymunedau yn aml oherwydd rhwystrau ieithyddol. Cytunodd JG fod dadansoddiad manylach o oedran, ethnigrwydd a rhyw yn rhywbeth y gallai'r heddlu ymchwilio iddo ymhellach. Cytunodd LJ ei bod yn bwysig deall yr agweddau ar gymunedau a oedd yn eu gwneud yn agored i niwed, a bod hon yn rôl y gallai'r grŵp ei chwarae a'i hailystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

#### Materion yn ymwneud â Gweithleoedd Mewnol

Trafododd y grŵp y gwaith o ddiogelu swyddogion rhag y feirws ac esboniodd MA fod opsiynau o ran llety wedi'u cynnig i swyddogion yr oedd eu teuluoedd yn gwarchod.

Nododd MA hefyd fod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael i swyddogion, gan sicrhau bod swyddogion yn gallu ymgysylltu â chymunedau yn ddiogel. Nododd JM adborth cadarnhaol a gafwyd gan ddalfeydd mewn perthynas â chyfarpar diogelu personol i oedolion priodol.

Cyfeiriodd AD at ganran y swyddogion a oedd wedi'u atgyfeirio am brawf, a nododd nad oedd 60% o'r swyddogion a atgyfeiriwyd wedi cael canlyniad yn dilyn y prawf. Mewn perthynas â 'thracio ac olrhain', gofynnodd AD a oedd cydweithwyr yn cael gwybod os oedd rhywun wedi cael canlyniad positif i brawf. Nododd MA fod 'cell brofi' ar waith, a oedd yn tracio ac yn monitro achosion yn ganolog. O ran y ddyletswydd i hysbysu cydweithwyr am achosion positif, roedd yn anodd gwneud hyn oherwydd natur sensitif yr angen i unigolion hunanynysu. Roedd AD yn pryderu ynghylch nifer y swyddogion a allai gael eu heintio ar ddyletswydd. Cyfeiriodd AD at enghraifft ddiweddar yng Nghaerdydd lle nad oedd tri swyddog yn gwisgo unrhyw gyfarpar diogelu personol. Dywedodd MA fod yr heddlu yn cynnal lefelau stoc cyfarpar diogelu personol. Fodd bynnag, nododd y byddai'r lefelau'n gostwng yn gyflym petai swyddogion yn ei wisgo drwy'r amser. Yn ôl cyngor a geisiwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru, yn fras, os nad oedd y gwrthrych nac aelod o'r aelwyd yn dangos symptomau COVID-19, ei bod yn rhesymol ac yn ddiogel peidio â gwisgo cyfarpar diogelu personol, ar yr amod bod swyddogion yn cadw pellter cymdeithasol. Nododd MA hefyd fod cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys menig, masgiau, ffedogau a hylif diheintio, yn cael eu cadw mewn ceir at ddefnydd swyddogion.



## Cosbau Penodedig

Rhoddodd MA drosolwg byr o nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyflwynwyd gan yr heddlu mewn perthynas â COVID-19. Dywedodd MA wrth y grŵp fod 216 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyflwyno hyd yma, a oedd yn dangos bod y rheoliadau wedi'u gorfodi gan yr heddlu mewn ffordd gymesur, yn arbennig o gymharu â heddluoedd eraill yng Nghymru, lle roedd un heddlu wedi cyflwyno mwy nag 800 o hysbysiadau cosb benodedig. Nododd MA nad oedd nifer mawr o hysbysiadau cosb benodedig yn nodi nac yn cofnodi ethnigrwydd unigolion. Dywedodd y byddai'r heddlu yn monitro hyn yn ofalus ac y byddai'n adrodd yn ôl i gyfarfod grŵp y Prif Swyddogion er mwyn sicrhau tryloywder.

Holodd SK am y data a gyflwynwyd ar gamau gorfodi, a oedd yn dangos bod mwy o gamau gorfodi'n cael eu cymryd mewn perthynas â'r boblogaeth BAME. Dywedodd MA fod dwy ffordd o nodi achos o dorri'r rheoliadau, sef naill ai drwy adroddiad gan aelod o'r cyhoedd neu swyddog ar batrôl, neu drwy unigolyn yn cyflawni trosedd yn gyntaf ac yna achos o dorri'r rheoliadau hefyd yn cael ei ddatgelu. Nododd SK y byddai'n ddefnyddiol iawn deall y gwahanol ffyrdd y caiff achosion eu cyfeirio at yr heddlu, a dywedodd ei bod yn fwy tebygol y byddai rhywun yn rhoi gwybod am achos yn cynnwys unigolion o gefndir BAME oherwydd gwahaniaethu a thensiynau a oedd yn bodoli eisoes. Dywedodd SK ei bod yn bwysig bod yr heddlu'n monitro'r agweddau hyn er mwyn atal effeithiau negyddol ar gymunedau BAME. Awgrymodd MA y dylid cael sgwrs ag LJ a HJJ er mwyn pennu'r ffordd orau o ymchwilio i'r mater hwn ymhellach.

Holodd SarahK am y gyfran fawr o hysbysiadau cosb benodedig yn ymwneud ag achosion o dorri rheolau COVID-19 lle nad oedd ethnigrwydd wedi'i gofnodi, a gofynnodd a oedd y broblem hon o ran cofnodi gwybodaeth yn systemig neu a oedd i'w phriodoli i ddatblygiad cyflym prosesau mewn ymateb i ddeddfwriaeth mewn perthynas â COVID-19. Dywedodd MA fod y broses wedi'i datblygu'n gyflym iawn a bod yr un ffurflenni'n cael eu defnyddio'n genedlaethol. Awgrymodd JG y byddai'n edrych ar sampl ehangach o ddata ar berfformiad ar gyfer cofnodi ethnigrwydd, er mwyn deall p'un a oedd hon yn broblem unigol mewn perthynas â Hysbysiadau Cosb Benodedig ai peidio.

Diolchodd LJ i MA am ei fewnbwn ac i aelodau PALG am eu hadborth. Awgrymodd LJ, ar ôl iddynt ystyried y mater, pe bai ganddynt ragor o gwestiynau, y gallent gysylltu ag SM neu HJJ.

**CAM GWEITHREDU – MA i weithio gydag Adran Amddiffyn y Cyhoedd i gael dadansoddiad manwl o wybodaeth mewn perthynas â data ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed.**

**CAM GWEITHREDU – MA i geisio gwybodaeth am y broses cofnodi hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer casglu data ar ethnigrwydd.**

**CAM GWEITHREDU – SWP i edrych ar sampl ehangach o ddata ar berfformiad ar gyfer cofnodi ethnigrwydd er mwyn deall p'un a oedd hon yn broblem unigol mewn perthynas â Hysbysiadau Cosb Benodedig ai peidio.**



## Unrhyw Fater Arall.

- Dywedodd SB wrth y grŵp fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi sefydlu gweithgor ar atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin. Roedd nifer o sefydliadau yn cydweithio ar y mater hwn.
- Nododd CS ymateb cadarnhaol gan gydweithwyr yn yr heddlu o ran atgyfeirio dioddefwr a thystion dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Dywedodd CS wrth y grŵp fod Ffocws Dioddefwyr hefyd wedi mabwysiadu'r gwasanaeth cymorth i ddiodesfwyr yn ystod y cyfyngiadau. Ar ôl cael cyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ddiweddar, roedd y gwasanaeth bellach wedi cyflwyno 'sgwrs fyw', a oedd ar gael i ddiodesfwyr 24 awr y dydd.
- Cyfeiriodd JM at y Gwasanaeth Noddfa Iechyd Meddwl yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Oherwydd pandemig presennol COVID-19, roedd y Noddfa wedi bod yn gweithredu fel gwasanaeth cymorth dros y ffôn.
- Nododd KJ brofiad cadarnhaol iawn gyda swyddogion yng Ngorsaf Heddlu Sandfields.
- Croesawodd HT y bwriad i wneud mwy o waith ar y materion yn ymwneud ag ethnigrwydd a drafodwyd. Nododd HT ei bod yn anodd iawn i rai cymunedau, yn arbennig ffoaduriaid, aros yn eu llety.
- Nododd LB y byddai'n ddefnyddiol deall proses NICHE o gofnodi achosion o dorri'r gyfraith a oedd yn cynnwys pobl ifanc. Nododd LB hefyd adborth cadarnhaol gan gydweithwyr a oedd yn rhyngweithio â'r heddlu.

### Tabl Camau Gweithredu

<b>Cam Gweithredu</b>	<b>Arweinydd</b>
<b>Gweithio gydag Adran Amddiffyn y Cyhoedd i gael dadansoddiad manwl o wybodaeth mewn perthynas â data ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed.</b>	Marc Attwell
<b>Ceisio gwybodaeth am y broses o gofnodi Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer casglu data ethnigrwydd.</b>	Marc Attwell
<b>Adolygu sampl ehangach o ddata ar berfformiad ar gyfer cofnodi ethnigrwydd er mwyn deall p'un a oedd hon yn broblem unigol gyda Hysbysiadau Cosb Benodedig ai peidio.</b>	Marc Attwell